**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau Newid yn yr Hinsawdd ac Adfer Natur

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Llun, 5 Mehefin 2023 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R Fogarty (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M Baker | O G James | S E Keeton |
| H Lawson | A J O'Connor | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Geoff Bacon | Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo |
| Deb Hill | Arweinydd y Tîm Cadwraeth Natur |
| Rachel Lewis | Rheolwr y Prosiect |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Jane Richmond | Rheolwr Prosiect – Newid yn yr Hinsawdd Strategol |
| Mark Wade | Pennaeth Tai ac Iechyd y Cyhoedd |
| Jonathan Wills | Cyfreithiwr Arweiniol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Dim

---

## 4 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 5 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau Newid yn yr Hinsawdd ac Adfer Natur a gynhaliwyd ar 18 Mai 2023 a'u llofnodi fel cofnod cywir.

## 6 Cylch gorchwyl.

Darparwyd cylch gorchwyl y Pwyllgorau Trawsnewid Gwasanaethau 'er gwybodaeth'.

## 7 Trafodaethau Cynllun Gwaith.

Nododd y Cadeirydd ei bod hi a'r Is-Gadeirydd wedi cwrdd â swyddogion ynghylch drafftio cynllun gwaith bras ar gyfer y Pwyllgor. Amlygodd y byddai'r Pwyllgor yn canolbwyntio ar bynciau mwy fel y gellir gwneud cyfraniad ystyriol a manwl tuag atynt. Roedd y pynciau'n cynnwys Adfer Natur Leol, Trafnidiaeth Gynaliadwy, Abertawe 2050 / Cynllun Ynni Ardal Leol a'r Strategaeth Gwastraff.

Ychwanegodd y byddai hefyd yn trafod Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan Cyhoeddus gyda swyddogion ac yn diweddaru'r Pwyllgor yn adroddiadau cynllun gwaith y dyfodol.

Amlinellodd Geoff Bacon, Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo, amserlen cynllun gwaith arfaethedig y Pwyllgor, gan amlygu pynciau/dyddiadau penodol i'w trafod.

**Penderfynwyd:** -

1) Cymeradwyo'r pynciau a restrwyd uchod.
2) Cylchredeg y cynllun gwaith i'r pwyllgor.

## 8 Dyddiad ac Amser Cyfarfodydd y Dyfodol.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ddyddiadau'r cyfarfodydd yn y dyfodol a ddarparwyd ar yr agenda. Amlygwyd y byddai'r cyfarfod ym mis Ebrill 2024 yn cael ei gynnal ar 15 Ebrill, nid 8 Ebrill fel a nodwyd ar yr agenda.

Cynigodd y Cadeirydd y byddai cyfarfodydd yn y dyfodol yn cael eu cynnal am 3pm.

**Penderfynwyd** y bydd cyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol yn dechrau am 3pm.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.15 pm

**Cadeirydd**